Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Dolgellau**

**Canolfan Deulu Dolgellau**
**Old Drill Hall**
**Ffos-y-Felin**
**Dolgellau**
**LL40 1DE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Cylch Meithrin Dolgellau

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Dolgellau |
| Lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Caiff y plant rai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Mae llawer o'r plant yn fodlon eu byd ac yn dechrau gwneud ffrindiau, gan ddangos empathi i bobl eraill. Maent yn archwilio eu hamgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Fodd bynnag, ceir argymhellion mewn perthynas â chyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth ac i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd gofalgar; maent yn trin plant ag urddas a pharch. Mae'r staff yn deall y gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant a rhoi'r polisi diogelu ar waith yn gywir. Mae'r staff yn gweithredu mewn ffordd gyson ac yn fodelau rôl cadarnhaol. Fodd bynnag, ceir argymhellion mewn perthynas â chynllunio gweithgareddau a bodloni cynnydd datblygiadol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae risgiau diangen i'r plant wedi'u nodi a'u dileu cymaint â phosibl. Mae'r safle a'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored yn ddiogel, gyda digon o le i ddiwallu anghenion y plant. Fodd bynnag, ceir argymhellion mewn perthynas â darparu digon o adnoddau.

Ar hyn o bryd, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydymffurfio mewn perthynas â hyrwyddo lles plant, gan sicrhau bod digon o staff gyda chymwysterau addas, gwiriadau o ran addasrwydd staff, arfarniadau staff, cadw cofnodion ac arferion hylendid. Mae hyn wedi arwain at AGC yn cyhoeddi meysydd i'w gwella a hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth sydd wedi'u hamlinellu yng nghefn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae arweinwyr newydd yn dechrau gweithio yno sydd â gweledigaeth gref ar gyfer y lleoliad y maent yn ei rhannu ag eraill. Maent yn gosod disgwyliadau uchel i annog eu tîm yn weithgar a herio perfformiad gwael.

| **Llesiant** | **Digonol** |
|---|---|

Caiff y plant rai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae y rhan fwyaf o'r amser. Cânt ddewis o blith yr ystod gyfyngedig o deganau ac adnoddau sydd ar gael iddynt. Gall plant yn yr ystafell cyn ysgol ddewis chwarae dan do neu yn yr awyr agored gan fod y drysau i'r amgylchedd awyr agored yn cael eu gadael ar agor. Maent yn mwynhau'r ardal awyr agored; mae rhai'n dewis gwibio o gwmpas ar eu teganau reidio wrth i eraill chwarae ar y llithren. Mae'r plant bach yn ystafell y babanod yn archwilio'u hamgylchedd yn fodlon. Mae rhai'n dewis chwarae gyda'r teganau synhwyraidd, mae eraill yn ymchwilio i'r blociau wrth i rai ymddiddori yn y ceir. Mae'r plant yn aml yn cyfathrebu'n hyderus gan fod eu dymuniadau a'u hanghenion, ar y cyfan, yn cael eu hystyried. Mae'r plant cyn ysgol yn mynd at y staff gofal amser cinio i gael cymorth i agor pecynnau a phlicio ffrwythau a chaiff eu ceisiadau eu hystyried.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad gan mwyaf. Mae'r plant bach yn yr ystafell babanod yn dangos eu llyfrau rhyngweithiol yn gyffrous i ni, gan wenu a phwyntio'n hapus at y goleuadau sy'n fflachio a'r lluniau. Mae'r plant yn mynd ati i chwarae ac yn ceisio rholio a thaflu peli atom, gan ein gwahodd i chwarae dal. Maent yn cael clod gan y staff gofal am chwarae a rhyngweithio'n garedig, sy'n arwain at ymdeimlad rhesymol o gyflawni rhywbeth a hunan-barch. Mae llawer o'r plant cyn ysgol yn dangos diddordeb brwd yn y sesiwn canu, gan ddewis ymuno yn y caneuon a'r symudiadau dawnsio, a chopïo gweithredoedd y staff gofal.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ar y cyfan. Mae rhai plant yn cydweithredu'n dda, gan rannu a chymryd eu tro. Maent yn dechrau dangos empathi ac yn dod yn sensitif i anghenion pobl eraill. Mae'r plant yn eistedd i lawr gyda'i gilydd i adeiladu tyrau gan ddefnyddio briciau cysylltu. Maent yn herio'i gilydd i adeiladu'r tŵr talaf ac yn gwenu'n gadarnhaol wrth gael clod am eu hadeilad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda gan ddefnyddio iaith neu ystumiau fel y bo'n briodol. Er enghraifft, mae'r babanod yn estyn eu breichiau i fyny pan fyddant am gael eu codi neu'n pwyntio pan fyddant eisiau rhywbeth sydd allan o gyrraedd.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac i ddatrys problemau. Mae'r plant yn defnyddio'r toiled a chyfleusterau golchi dwylo yn annibynnol. Caiff y plant bach eu hannog i fwyta eu cinio'n annibynnol; caiff babanod ifanc eu cefnogi'n ofalus gan staff gofal gyda rhai bwydydd bys a bawd, ochr yn ochr â bwydo â llwy. Fodd bynnag, mae llawer o gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth plant yn cael eu colli. Er enghraifft, nid yw'r plant yn gyfarwydd â'r arfer o dacluso. Nid yw'r plant cyn ysgol yn defnyddio'r ystafell gotiau'n annibynnol i gasglu eu heiddo a chânt eu cefnogi'n ormodol i baratoi eu hunain i adael y lleoliad i fynd i'r ysgol.

| Gofal a Datblygiad | Digonol |
| --- | --- |

Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldeb i amddiffyn y plant. Maent yn hyderus o ran gwybod i bwy i adrodd os oes ganddynt unrhyw bryderon am blant, cydweithwyr neu'r unigolyn cyfrifol. Mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant fel rhan o'u hyfforddiant sefydlu a cheir polisi addas i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae systemau addas ar waith ar gyfer rheoli a chofnodi damweiniau, digwyddiadau ac unrhyw feddyginiaeth a gaiff ei rhoi. Mae nifer digonol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gymorth cyntaf pediatrig.

Mae'r staff gofal yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd garedig a gofalgar gan mwyaf, ac maent yn hyrwyddo cydberthnasau cadarnhaol gyda nhw ar y cyfan. Maent yn siarad yn bwyllog ac yn barchus â'r plant. Mae'r staff gofal yn ymgysylltu â'r plant gan mwyaf ac yn eu cefnogi wrth chwarae. Maent yn darparu rhai teganau ac adnoddau i'r plant sy'n annog digon o gyfleoedd i blant ddysgu a datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r staff gofal yn cefnogi'r plant yn ddigon da i ymestyn eu dysgu a'u datblygu'n ddigonol. Ceir diffyg cyfleoedd cynlluniedig ar gyfer gweithgareddau neu brofiadau pwrpasol, penagored i ddiddori'r plant neu i ddatblygu eu chwarae, archwilio a dysgu yn effeithiol. Mae'r staff gofal yn hyrwyddo'r Gymraeg yn dda; clywsom dipyn o Gymraeg yn cael ei siarad a gwnaed cryn ddefnydd o ganeuon Cymraeg i annog dealltwriaeth y plant.

Mae bwydlen byrbrydau amrywiol a maethol gytbwys ar waith ac roedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ceisio annog y rhieni i ddarparu pecyn bwyd iach. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar hylendid bwyd. Caiff gwybodaeth am alergeddau bwyd a gofynion deietegol unigol y plant ei harddangos yn glir yn yr ystafell chwarae er mwyn i'r staff gyfeirio ati. Mae'r staff gofal yn gwisgo'r holl gyfarpar diogelu personol (PPE) a awgrymir wrth newid cewynnau ac maent yn sicrhau bod y plant yn teimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus a chedwir eu hurddas yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r staff gofal yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau'n ymwneud â hylendid bob amser. Er enghraifft, nid oeddent yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta cinio. Pan oedd y plant wedi gorffen bwyta, defnyddiodd y staff gofal un weip gwlyb i lanhau wynebau tri phlentyn. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan ac yn cofnodi pob ymwelydd sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r drysau allanol wedi'u cloi, mae giatiau diogelwch yn cael eu defnyddio yn yr ardaloedd chwarae a'r cynteddau ac mae ffensys diogel o gwmpas yr ardaloedd chwarae awyr agored. Mae'r lleoliad yn ddigon glân, yn daclus, mewn cyflwr da ac yn groesawgar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu bod archwiliadau cynnal a chadw rheolaidd yn cael eu cynnal a bod ganddynt asesiadau risg ar gyfer pob ardal o'r safle. Caiff y gwiriadau diogelwch dyddiol eu cynnal gan y staff gofal yn gyson. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal arferion gwagio'r adeilad mewn argyfwng rheolaidd ac yn eu cofnodi. Mae'r arferion glanhau yn adlewyrchu hylendid da a rheolaeth effeithiol dros heintiau.

Caiff y lleoliad ei drefnu'n ddwy ystafell chwarae ar wahân, gan ddarparu lleoedd ymroddedig i grwpiau oedran gwahanol. Mae pob ardal yn rhoi digon o le i'r plant symud o gwmpas a chwarae. Ceir ystafell gaeedig hefyd a ddefnyddir fel ystafell gysgu ymroddedig sy'n darparu amgylchedd tawel, pwyllog ac ymlaciol i blant iau gysgu ynddo. Mae cynllun yr ystafelloedd yn galluogi'r plant i ddewis adnoddau yn annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod pob ardal wedi'i chynllunio neu'i threfnu'n ddigon da i ddarparu amgylchedd dysgu diddorol a chefnogol. Gall hyn gael effaith negyddol ar ddysgu ac ymddygiad y plant. Mae rhai arddangosiadau i'w gweld ar y waliau er enghraifft, gwneir rhywfaint o ddefnydd o hesian ar gyfer *‘wal waw’* gydag esiampl o waith plant, arddangosfa Gymreig a chaiff yr wyddor ei harddangos ar rywfaint o faneri.

Mae'r ardal awyr agored wedi'i threfnu'n ddeniadol gyda glaswellt ffug ac mae cynlluniau ar waith i godi ardal gysgodol er mwyn cynnig cysgod rhag y glaw a'r haul, fydd yn galluogi'r plant cyn ysgol i ddefnyddio'r ardal awyr agored mor aml â phosibl. Mae'r teganau a'r adnoddau y tu allan yn cynnwys blociau, beiciau, ceir a threiciau reidio, llithren, pydew tywod a thwba dŵr ac mae'n rhoi cyfleoedd i'r plant fod yn gorfforol weithgar ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u datblygiad. Ceir amrywiaeth ddigonol o adnoddau a chyfarpar y gall y plant fynd atynt yn rhwydd. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, ni wnaeth y plant yn yr ystafell fabanod fynd allan i'r awyr agored.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Gwael

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cymryd y cyfrifoldeb am y gwasanaeth drosodd yn ddiweddar, ac maent yn y broses o gyfarwyddo eu hunain gyda rhedeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Maent wedi cychwyn gwneud gwelliannau yn y cyfnod byr maent wedi bod yn rhedeg y lleoliad ac mae ganddynt weledigaeth gadarn a gaiff ei rhannu ag eraill. Maent yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn gosod disgwyliadau uchel er mwyn annog eu tîm a herio perfformiad gwael yn effeithiol. Yn dilyn yr ymweliad arolygu, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymateb yn gadarnhaol i wybodaeth a chyngor a roddwyd i wella safonau yn y lleoliad. Maent yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau o bwys sy'n cael effaith ar lesiant y plant. Fodd bynnag, mae meysydd o ddiffyg cydymffurfio yn parhau mewn perthynas â hyrwyddo lles plant, gan sicrhau digon o staff gyda chymwysterau addas, gwiriadau addasrwydd staff, arfarniadau staff, cadw cofnodion ac arferion hylendid. Mae hyn wedi arwain at AGC yn cyhoeddi meysydd i'w gwella a hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod rhai gwiriadau recriwtio ar waith ar gyfer bron pob aelod o'r staff, gan gynnwys tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fodd bynnag, nid oedd eu proses ar gyfer sicrhau y caiff gwiriadau recriwtio eu cwblhau'n llawn cyn i'r staff gofal ddechrau gweithio yn y lleoliad yn gadarn, ac o ganlyniad, ni chafodd yr holl wybodaeth reoliadol ei chasglu er mwyn asesu addasrwydd y staff gofal yn llawn. Felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn y cymarebau perthnasol nac yn dyrannu staff yn effeithiol. Bu newidiadau a heriau sylweddol i'r lleoliad ac mae'r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi adnabod y meysydd sydd angen eu datblygu. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym eu bod wedi cael problemau yn ddiweddar o ran recriwtio a chadw staff. O ganlyniad, nid ydynt wedi llwyddo i sicrhau bod nifer y staff yn bodloni disgwyliadau'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal y cymarebau oedolyn: plentyn a argymhellir gan mwyaf drwy gau'r ystafell babanod, ond ni wnaeth hyn ddigwydd ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom sampl o gofrestrau'r staff gofal a'r plant sy'n cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael y staff a'r plant yn y lleoliad, ond nid yw'r cofrestrau'n adlewyrchu'n gywir y broses o ddyrannu neu symud staff yn y lleoliad, gan gynnwys egwyliau'r staff neu pan fyddant yn gadael i hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno. Felly, ni allwn fod yn hyderus mai digwyddiadau ar eu pen eu hunain oedd y rhain. Felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

O ganlyniad i gymarebau staff annigonol, nid oedd y staff gofal yn gallu diwallu eu rolau yn gorfforol. Gwelsom fod rhai o'r plant yn yr ystafell cyn ysgol wedi cynhyrfu ac yn crio heb

ymyriad cyflym gan y staff gofal. Arweiniodd hyn at fethu â diwallu anghenion llawer o blant. Nid oedd y staff gofal yn darparu tasgau a heriau diddorol i'r plant, gan wneud iddynt ddiflasu ac yn mynd yn aflonydd. Sylwyd bod hyn yn cael effaith negyddol ar y plant yn yr ystafell cyn ysgol. Nid oedd unrhyw ymyriad dan arweiniad oedolion er mwyn annog y plant i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu ymhellach. O ganlyniad, roedd ymddygiad y plant yn heriol ar adegau. Roedd yr adnoddau a ddarparwyd ar gyfer gweithgareddau yn brin ac nid oeddent yn darparu ar gyfer natur greadigol, dychymyg na datblygiad sgiliau'r plant. Felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cynnal trafodaethau goruchwylio â'r staff er mwyn trafod a chofnodi eu lles, ymarfer, anghenion hyfforddiant, diogelu a datblygiad proffesiynol ond nid ydynt wedi cynnal arfarniadau ffurfiol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.  Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo y cânt eu cefnogi yn eu rôl.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben sy'n rhoi adlewyrchiad cywir o'r hyn sydd gan y lleoliad i'w gynnig, gan alluogi rhieni i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am ofal eu plentyn. Mae'r polisïau, y cofnodion a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith, sy'n cynnwys y wybodaeth berthnasol a chânt eu hadolygu'n gyffredinol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn ddigonol. Ar y cyfan, maent yn sicrhau bod y rhieni yn derbyn gwybodaeth reolaidd drwy ddefnyddio ap electronig. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hybu'r Gymraeg. Maent yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 27 | Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi methu â chynnal y cymarebau staffio priodol. | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau ar gyfer y staff gofal a'r gwirfoddolwyr cyn iddynt weithio gyda'r plant. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol wneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn gwneud darpariaeth briodol i oruchwylio'r plant perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Rhaid iddo wneud yn siŵr bod gwaith cynllunio'n cynnig cyfleoedd priodol ar gyfer dysgu a datblygiad y plant. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod cofrestrau'r staff yn adlewyrchu'n gywir y broses o ddyrannu neu symud staff yn y lleoliad, gan gynnwys egwyliau staff neu pan fyddant yn gadael i hebrwng plant i'r ysgol neu oddi yno. | Newydd |
| 25 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff risgiau diangen i iechyd a diogelwch plant perthnasol eu nodi a'u dileu, cyn belled â phosibl. Ni chaiff arferion a gweithdrefnau hylendid eu cynnal yn ddigon da a gallent arwain at ledaenu haint. | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod yr holl staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu sy'n eu galluogi i gefnogi anghenion y plant yn effeithiol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 8 – Maeth a lles | Sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus, ac i ddatrys problemau. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Datblygu system i fonitro ac olrhain cynnydd datblygiadol y plant a defnyddio'r wybodaeth hon yn y broses o gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol. |
| Safon 23 - Cyfarpar | Sicrhau bod digon o deganau a deunyddiau chwarae addas ar gael i ddarparu gweithgareddau a chyfleoedd chwarae ysgogol i'r plant ym mhob ardal chwarae, dysgu a datblygu. Mae'r rhain yn briodol ar gyfer oedrannau ac anghenion datblygiadol unigol y plant sy'n mynychu ac yn hyrwyddo'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/04/2024